

Hanes y bleidlais

1.

		Cywir	Anghywir
1.	Roedd gan bawb hawl i bleidleisio cyn 1918.		✓
2.	Swffragetiaid oedd yr enw ar y menywod a fu'n ymgyrchu dros gael y bleidlais.	✓	
3.	Gwnaeth menywod gyfraniad mawr i'r ymdrech ryfel rhwng 1914-18.	✓	
4.	Cafodd pob menyw'r bleidlais yn 1918.		✓
5.	Yn 1918, cafodd pob dyn 21 oed a throsodd y bleidlais.	✓	
6.	Ers 1969 mae pawb dros 16 oed yn cael pleidleisio.		✓

2.

Darllenwch y gerdd a chysylltwch y cam yn hanes cael y bleidlais â'r dyddiad cywir.

1918	Dynion 21 oed a throsodd a menywod 30 a throsodd oed yn cael pleidleisio.
Cyn 1918	Dim ond dynion ag eiddo oedd yn cael pleidleisio.
1928	Menywod 21 oed a throsodd yn cael pleidleisio.
1969	Pawb 18 oed a throsodd yn cael y bleidlais.

3.

Dim ond dynion ag eiddo oedd yn cael pleidleisio.

4.

Mae'r gerdd yn awgrymu bod y ffaith fod menywod wedi cyfrannu i ymdrech ryfel y Rhyfel Mawr wedi bod o gymorth iddyn nhw ennill yr hawl i bleidleisio.

5.

Roedd yn rhaid i fenywod aros tan eu bod yn 30 oed cyn cael pleidleisio ond roedd dynion 21 oed a throsodd yn cael pleidleisio.

7.

cyfoethog	cefnog
gweithio'n galed iawn	llafurio
pwysu am, hawlio	mynnu
dymuniad neu awydd cryf	uchelgais ('huchelgais' cyn 'eu')
mwy nag un arwres	arwresau
mwy nag un bwth (pleidleisio)	bythau
cafodd ei wneud yn is	gostyngwyd
poeni, becco	hidio

8.

A bu 'na gryn brotestio	yna
Doedd hynny ddim 'r un fath	yr
Ca'dd hynny ei gywiro.	Cafodd
'Mhen degawd rhoddwyd hawl	ymhen
"..Am fwrw 'mhleidlais y tro hwn."	fy mhleidlais